
cwmpas

For economic and social change
Creu newid economaidd a chymdeithasol

# Cylch Gwaith y Bwrdd

Mai 2022

Awduron: Gweithgor y Bwrdd



## Nod a Diben Cyffredinol

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol am osod strategaeth a chyfeiriad Cwmpas ac am faterion sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys atebolrwydd ariannol, cydymffurfedd cyfreithiol a rheoleiddiol, a rheoli risg.

## Cyfansoddiad ac aelodaeth

Mae'r Bwrdd yn cynnwys:
- hyd at 8 cyfarwyddwr a etholwyd gan Aelodau'r Gymdeithas ac sy'n dod o'u plith
- hyd at 1 cyfarwyddwr annibynnol a benodwyd gan TUC Cymru
- hyd at 3 chyfarwyddwr annibynnol a benodwyd i'r Bwrdd

Ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd chwarter o aelodau etholedig y Bwrdd yn ymddeol.

Bydd y Bwrdd yn penodi'r canlynol, a bydd ganddo'r grym i'w diswyddo:

- Cadeirydd, a fydd hefyd yn Gadeirydd yr holl gyfarfodydd cyffredinol
- Ysgrifennydd, a fydd yn cadw cofnodion o holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r holl gyfarfodydd cyffredinol
- Trysorydd, a fydd yn goruchwylio materion ariannol Cwmpas ac yn sicrhau bod cyfrifon priodol yn cael eu cadw

Bydd y Cadeirydd yn cytuno ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd o flaen llaw. Bydd y Prif Weithredwr yn mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd, ynghyd ag uwch aelodau staff yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr.

Bydd gan y Bwrdd gworwm o 50% o'r cyfarwyddwyr a bydd yn cynnwys y cyfarwyddwyr hynny nad ydynt yn bresennol yn bersonol.

## Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Bwrdd yw:

- Gosod a chynnal gweledigaeth, cenhadaeth, a gwerthoedd Cwmpas
- Datblygu a chymeradwyo strategaeth Cwmpas ac adolygu cynnydd yn rheolaidd
- Cytuno ar gynigion a'u cymeradwyo, gan gynnwys ceisiadau grant am fwy na £500,000, penderfyniadau gwariant sy'n cyrraedd neu'n fwy na throthwyon Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA) Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a threfniadau ariannol sy'n anarferol neu sy'n achosi risg i enw da
- Adolygu a gwerthuso perfformiad gweithredol, canlyniadau, ac effaith
- Datblygu polisïau a gweithdrefnau Cwmpas, cytuno arnynt, a'u hadolygu
- Sicrhau cydymffurfedd, atebolrwydd, a thryloywder i alluogi Cwmpas i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol

- Sicrhau bod risgiau'n cael eu hamlygu'n effeithiol a'u rheoli'n ddigonol
- Cynnal sefydliad iach a diogel
- Cynnal goruchwyliaeth gyllidol gref, monitro ymgymeriadau ariannol Cwmpas, archwilio adroddiadau ariannol, a sicrhau bod prosesau archwilio cadarn ar waith
- Gweithredu fframwaith effeithiol o reolaeth ariannol
- Cytuno ar y gyllideb flynyddol a'i chymeradwyo
- Cynnal gweithdrefnau a rheolaethau ansawdd effeithiol
- Penodi pwyllgorau, fel y bo angen; pennu cyfrifoldebau dirprwyedig y pwyllgorau a monitro eu gweithgareddau
- Adolygu cyfrifoldebau, aelodaeth, ac awdurdod pwyllgorau'n flynyddol
- Hyrwyddo Cwmpas
- Penodi, arfarnu, disgyblu, a diswyddo'r Prif Weithredwr
- Dirprwyo awdurdod yn briodol i aelodau unigol o'r Bwrdd neu aelodau staff
- Adolygu a gwerthuso ei berfformiad ei hun

## Cyfarfodydd ac Adrodd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith, a hyd at wyth gwaith y flwyddyn, ac mae ganddo'r awdurdod i gynnull cyfarfodydd ychwanegol fel y bo'r angen yn ôl yr amgylchiadau. Gall cyfarfodydd fod wyneb yn wyneb neu'n rhithwir neu'n gyfuniad o'r ddau. Gall y Bwrdd wahodd rheolwyr, archwilwyr, neu bobl eraill i fynychu cyfarfodydd a rhoi gwybodaeth berthnasol, fel y bo angen.
Cymerir cofnodion o holl gyfarfodydd y Bwrdd. Bydd cofnodion drafft yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Bwrdd cyn iddynt gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## Adolygu

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd gan y Bwrdd. Cynhelir yr adolygiad nesaf ym mis Mai 2024.